

SL(5)651 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau") i dynnu Denmarc oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn y Rheoliadau hynny ac i wneud darpariaethau trosiannol.

Daeth y Rheoliadau hyn i rym am 4:00am ar 6 Tachwedd 2020. Nodir bod darpariaethau deddfwriaethol pellach mewn perthynas â theithio o Ddenmarc wedi dod i rym am 4:00 am ar 7 Tachwedd 2020 trwy'r Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio a Chyfyngiadau Rhyngwladol) (Diwygio) (Cymru) 2020.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Mae'r 5 pwynt canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Hawliau Dynol

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol, sy'n ymwneud â'r Rheoliadau hyn a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020:



"Nid yw'r diwygiadau yn y ddau set o Reoliadau hyn yn newid y ffaith fod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; mae'r Llywodraeth o'r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Ymgynghoriad

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau Rhif 18 [...]."

Mewn llythyr at y Llywydd oddi wrth Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd dyddiedig 6 Tachwedd 2020, eglurir hefyd:

"Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad."

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Nodwn nad oes asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau hyn, nac ar gyfer y prif Reoliadau, a gofynnwn i Lywodraeth Cymru esbonio pa drefniadau y mae wedi eu gwneud, mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn neu'r prif Reoliadau, i gyhoeddi adroddiadau o'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn unol â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Torri'r rheol 21 diwrnod a dod i rym cyn gosod

Nodwn:

- Daeth y Rheoliadau hyn i rym cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd; a
- Torri'r rheol 21 diwrnod (hynny yw, y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn penderfyniad negyddol gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym).

Mae esboniad wedi'i roi gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd dyddiedig 6 Tachwedd 2020. Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:



"Dros nos, daeth yn angenrheidiol i wneud y Rheoliadau uchod, ac yn unol ag adrannau 4(1) ac 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu bod yr Offeryn Statudol hwn heb gadw at y confensiwn 21 diwrnod a wedi dod i rym cyn y gellid ei osod. [...]"

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 i dynnu Denmarc oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio. Mae'r Rheoliadau'n gwneud y newid hwn oherwydd y newidiadau a nodwyd yn y risg i iechyd y cyhoedd a achosir gan y rhai sy'n cyrraedd o'r wlad hon."

Rydym hefyd yn nodi esboniad y Llywodraeth yn y Memorandwm Esboniadol sef ei bod hi'n angenrheidiol *"i dynnu Denmarc ar frys o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau eithriedig"* oherwydd *"bod risgiau iechyd yn dod i'r amlwg yn cael eu hadrodd o ffermydd mincod yn Nenmarc, a'r angen i weithredu cyn i fwy o deithio rhyngwladol o Ddenmarc gyrraedd y DU."*

5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Dogfen eglurhaol

Rydym yn nodi ac yn croesawu cyhoeddi [dogfen eglurhaol](#) gan Lywodraeth Cymru, sy'n nodi'r amryw ddiwygiadau a wnaed i'r prif Reoliadau er mwyn cynorthwyo'r darlennydd i ddeall y prif Reoliadau.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb Llywodraeth Cymru

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r trydydd pwynt rhinweddau a nodwyd cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 16 Tachwedd 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

